

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn

1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel ffordd o helpu i fynd i'r afael â pherchnogaeth cŵn anghyfrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'r Cyngor wedi cael rheolyddion cŵn mewn grym ers nifer o flynyddoedd. Is-ddeddfau oedd rhain yn wreiddiol, yna daethant yn Orchmynion Rheoli Cŵn. Ar 20 Hydref 2017, yn unol â gofynion Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ('y Ddeddf'), daeth Gorchymynion Rheoli Cŵn blaenorol y Cyngor yn un Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC). Digwyddodd y newid hwn yn awtomatig yn unol â'r gyfraith.

1.2 Mae'r Cyngor yn adolygu'r GGMC hwn, ar ôl cyflawni ymgynghoriad cyhoeddus.

Canlyniadau Ymgynghori

1.3 Rhwng 22/01/18 a 22/02/18 ymgynghorodd y Cyngor yn gyhoeddus ar **GGMS newydd arfaethedig**, gweler atodiad 1. Mae manylion llawn y GGMC hwnnw, yr ymgynghoriad a'r canlyniadau ar gael ar wefan y cyngor ar <https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Environmental-problems/Dog-Issues/Dog-Control-Orders/Dog-Control-Public-Space-Protection-Order-Consultation.aspx>

1.4 Nod y cynigion yw creu cydbwysedd fel bod perchnogion cŵn yn cael mwynhau a sicrhau lles eu cŵn ac ar yr un pryd bod pobl eraill yn parhau i fwynhau manau cyhoeddus heb i gŵn a pherchnogion cŵn anghyfrifol darfu neu effeithio arnynt.

1.5. Dangosodd yr ymgynghoriad bod cefnogaeth gyhoeddus gref ar gyfer y cynigion fel a ganlyn:

- Mesurau i reoli baw cŵn (88% o blaid);
- Mynnu bod person sy'n gyfrifol am gi yn dangos bod ganddynt fodd priodol o godi baw cŵn pan fydd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddynt (77% o blaid);
- Cŵn ar dennyn (71% o blaid);
- Cŵn ar dennyn trwy gyfarwyddyd (73% o blaid);
- Codi swm y Rhybudd Cosb Benodedig ar gyfer holl droseddau rheoli cŵn i £100 (64% o blaid).

1.6. Y prif faes lle'r oedd y gefnogaeth yn llai ffafriol, oedd mewn perthynas ag Ardaloedd dan Waharddiad ar gyfer cŵn ar draethau (49% o blaid, 48% yn erbyn a 3% heb fynegi barn).

Addasiad pellach i'r GGMC drafft newydd'

1.7. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd â sylwadau ychwanegol, eu hystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ar 05/02/20 a Chabinet y Cyngor ar 11/02/20.

1.8 Penderfynodd y Cabinet (gweler **item 775**) -

“Cymeradwyo'r Drafft Newydd Arfaethedig Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) yn Atodiad 2 yr adroddiad, yn amodol ar

Ail Ymgynghoriad Cyhoeddus: Nodyn Eglurhaol

ymgynghoriad pellach am fis ar y newidiadau arfaethedig (wedi'u hamlygu mewn melyn), gyda'r addasiad canlynol:-

- (i) Tynnu (t) (Clwb Golff Gogledd Cymru ac eithrio'r llwybrau troed sy'n croesi'r cwrs) o Atodlen 3 – Gwahardd Cŵn (Gwaharddiad Gydol y Flwyddyn) a'i gynnwys o fewn Atodlen 5 – Cŵn ar Dennyn.

Felly diwygiwyd y GGMC drafft newydd i gynnwys yr uchod. Mae newidiadau eraill hefyd wedi cael eu cynnwys, yn dilyn ceisiadau Aelod, fel y cytunwyd gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Y Cyng. Charlie McCoubrey. Mae GGMC Drafft Newydd terfynol, gweler atodiad 2, wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer ail ymgynghoriad statudol a chyhoeddus, gyda chynlluniau/mapiau llawn ar gyfer **holl** ardaloedd a gynhwysir yn atodiad 3. Mae'r drafft newydd hwn yn atodiad 2 yn amlygu newidiadau i'r fersiwn a ymgynghorwyd arni yn flaenorol. Disgrifir ac amlygir y newidiadau arfaethedig isod. Mae'r geiriau a gynigir i gael eu tynnu wedi'u hamlygu mewn melyn, ac mae'r ychwanegiadau/addasiadau wedi'u hamlygu mewn gwyrdd. Dim ond y newidiadau hyn sy'n destun ail ymgynghoriad. Mae'r cynlluniau/mapiau sy'n dangos y newidiadau hyn ar gyfer bob ardal yn atodiad 4, "Mapiau GGMC ar gyfer holiadur ymgynghori". Mae'r holiadur ymgynghori cysylltiol yn atodiad 5.

2. Y NEWIDIADAU SY'N DESTUN YMGYNGHORIAD

ATODLEN 3 - GWAHARDD CŴN (GWAHARDDIAD GYDOL Y FLWYDDYN)

(2) k Cae Chwarae Ffordd Top Llan, Glan Conwy

Yn dilyn pleidlais gyhoeddus leol, mae Cyngor Cymuned Glan Conwy wedi gwneud cais i'r ardal hon gael ei thynnu o'r rhestr o leoliadau a gynigwyd i wahardd cŵn gydol y flwyddyn. Y rhesymau dros hyn yw i sicrhau bod o leiaf 1 o'r 2 man agored gwyrdd yng Nglan Conwy ar gael ar gyfer perchnogion cŵn cyfrifol.

(2) k Cae Chwarae Ffordd Llanrwst, Glan Conwy

Mae Cyngor Cymuned Glan Conwy wedi gwneud cais i'r ardal hon gael ei chynnwyd gan fod nifer o gwynion wedi bod o ran presenoldeb baw cŵn ar y cae chwarae. Mae ardal chwarae i blant wedi'i lleoli yno. Er gwaethaf gosod arwyddion, mae'r baw cŵn yn parhau, felly gwnaed cais i wahardd cŵn o'r ardal hon yn gyfreithiol, a fydd ond yn bosibl os yw'r ardal hon yn cael ei chynnwys o fewn drafft newydd y GGMC.

(2) p Cae Cymunedol Llanelian, Llanelian

Mae Cyngor Cymuned Llanelian wedi gofyn bod yr ardal a ddisgrifir yn y GGMC drafft newydd yn cael ei chynnwys fel ardal wedi'i gwahardd i gŵn oherwydd bod baw cŵn yn cael ei adael yn rheolaidd yn y lleoliad. Mae gwaith addysgiadol a hyrwyddol gyda'r nod o sicrhau perchnogaeth cŵn cyfrifol wedi cael ei gyflawni gan y Cyngor Cymuned a swyddogion Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, ond mae baw cŵn yn dal i gael ei adael yn yr ardal. Mae galwadau erbyn hyn i wahardd cŵn o'r ardal hon yn gyfreithiol, a fydd ond yn bosib os fydd yr ardal yn cael ei chynnwys yn nrafft newydd y GGMC fel y disgrifiwyd.

(4) n **Pwll Padlo Cymunedol Llandudno/Craig y Don**

Cynigiwyd i'r ardal hon gael ei chynnwys fel ardal gwahardd cŵn, fodd bynnag mynegodd perchnogion cŵn eu pryderon na fyddent yn gallu cael mynediad i'r toiledau cyhoeddus na defnyddio'r caffî. Felly ni fydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen; yn hytrach cynigir i'r ardal gael ei chynnwys yn nrafft newydd y GGMC fel ardal Cŵn ar Denny.

(2) t **Traeth Bae Colwyn – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng y llithrfa (ond nid yn cynnwys y llithrfa) ar gyfer Porth Eirias a'r ail fynedfa i'r traeth i'r chwith o'r Pier, mewn llinell â Gorsaf Bae Colwyn**

Er mwyn cynnal cydbwysedd o ran anghenion perchnogion cŵn a'r rhai heb gŵn, ac i alluogi buddion amwynderau traeth newydd Bae Colwyn sydd wedi cael eu creu, cynigwyd y gwaharddiad cŵn fel y disgrifiwyd uchod. Ni chafwyd cefnogaeth lawn i hyn yn ystod yr ymgynghoriad, felly mae'r cynnig gwreiddiol yn cael ei dynnu yn ôl.

(2) t **Traeth Bae Colwyn – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng y pwynt pellaf tuag at y môr o bentir Porth Eirias ac ochr ddwyreiniol lein Pier Bae Colwyn**

Er mwyn cynnal cydbwysedd o ran anghenion perchnogion cŵn a'r rhai heb gŵn, ac i alluogi buddion amwynderau traeth newydd Bae Colwyn, cynigwyd yr ardal gwahardd cŵn fel y disgrifiwyd uchod. O ystyried bod gweddill y traeth a grëwyd ym Mae Colwyn heb gael ei olchi gan y llanw, bydd angen i ddefnyddwyr yr ardal honno ymddwyn yn gyfrifol o ran gwastraff a pherchnogaeth cŵn bob amser.

(2) v **Cae Cymunedol Minafon, Hen Golwyn**

Roedd y man gwyrdd agored hwn yn cael ei ddefnyddio i gerdded cŵn ac roedd yn llawn baw ci gan gyfyngu ar ei ddefnydd gan bawb yn y gymuned. Mae ger Ysgol T Gwynn Jones. Mae AFfCh bellach wedi trawsnewid y man gwyrdd agored yn barc ar gyfer teuluoedd ac ardal antur ar gyfer plant, gyda meinciau, meinciau picnic a dôl o flodau gwyllt. Mae'r safle ger yr ysgol ac fe ddefnyddir yr ardal gan blant yn ystod y tymor. Derbyniwyd cais gan AFfCh i wahardd cŵn o'r ardal gydol y flwyddyn, er mwyn i'r parc newydd gael ei ddefnyddio'n effeithiol a'i fwynhau gan bawb. Felly cynigir i'r ardal hon gael ei chynnwys o fewn y GGMC drafft newydd.

(2) w **Coetir/ardal Bioamrywiaeth arfaethedig yn Brookfield Drive, Llandrillo-yn-Rhos**

Bydd ardal coetir newydd yn cael ei greu yn yr ardal a ddisgrifir uchod. Er mwyn gwireddu manteisio yn ardal newydd hon, mae aelod lleol wedi cynnig i gŵn gael eu gwahardd.

ATODLEN 4 - GWAHARDD CŴN (GWAHARDDIAD TYMHOROL)

(1) **Bae Cinmel – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y fynedfa i'r traeth o faes parcio St Asaph Avenue, Bae Cinmel a'r fynedfa gyntaf i'r traeth o'r promenâd ger Rhodfa Cilcoed, Bae Cinmel**

Mae Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel wedi gwneud sylwadau yr hoffent dynnu'r cyfyngiad cŵn tymhorol o'r ardal a ddisgrifir yn y GGMC diwygiedig a gynigiwyd yn wreiddiol a ymgynghorwyd arno, fel nad oes gwaharddiad tymhorol na gwaharddiad arall ar gŵn yn y

Ail Ymgynghoriad Cyhoeddus: Nodyn Eglurhaol

Ileoliad hwnnw. Golyga hyn na fydd posibl i'r ardal honno barhau i gael Gwobr Glan y Môr Baner Las.

(1) ~~(2) c Penmaenmawr – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd o'r morglawdd at y llithrfa (ond ddim yn cynnwys y llithrfa) ger yr Ardal Chwarae i blant.~~

Nid oedd Cyngor Tref Penmaenmawr yn cefnogi'r lleoliad a ddisgrifir uchod felly mae'r geiriau wedi cael eu tynnu

(3) d Penmaenmawr – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd o ochr ddwyreiniol y caffï sydd wedi'i leoli ar y promenâd a'r llithrfa sy'n gysylltiedig â'r clwb hwylio.

Dywedodd Cyngor Tref Penmaenmawr yn ystod yr ymgynghoriad yr hoffent weld y gwaharddiad cŵn tymhorol fel y mae i aros yn ei le. Mae'r geiriau uchod yn cyflawni hyn.

~~(2) d Llanfairfechan – yr ardal o draeth sy'n ymestyn rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y ddwy lithrfa (ond ddim yn cynnwys y llithrfeydd)~~

Er mwyn osgoi dryswch ac elwa'r mynediad anabl i draeth Llanfairfechan, nid oedd Cyngor Tref Llanfairfechan yn cefnogi'r lleoliad a ddisgrifiwyd uchod, felly mae'r geiriau wedi cael eu tynnu.

(3) e Llanfairfechan - yr ardal o draeth sy'n ymestyn rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y brif lithrfa a cheg yr afon (ond ddim yn cynnwys y llithrfa).

Roedd Cyngor Tref Llanfairfechan eisiau'r gwaharddiad tymhorol ar gŵn fel ag yr oedd i aros yn ei le, felly mae'r geiriau uchod yn adlewyrchu hyn.

ATODLEN 5 – CŴN AR DENNYN

(4) d Cae Chwarae Trinity Avenue Llandudno; ac eithrio'r ardal (wedi'i farcio) a ddynodir ar gyfer ymarfer corff i gŵn

Mae cwynion a sylwadau wedi cael eu derbyn gan Aelodau Lleol nad yw perchnogion cŵn yn cadw eu cŵn dan reolaeth yn y lleoliad hwn. Felly cynigir ardal newydd yn y GGMC drafft newydd er mwyn cynnwys y lleoliad hwn i gŵn gael eu gadael ar dennyn.

(4) e Cae Chwarae Owain Glyndŵr, Bae Cinnel; ac eithrio'r ardal (wedi'i farcio) a ddynodir ar gyfer ymarfer corff i gŵn

Ar ôl derbyn cwynion am faw cŵn yn ardal chwarae'r plant a'r caeau chwarae, mae Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel wedi gwneud cais i gŵn gael eu cadw ar dennyn yn yr ardaloedd hynny. Felly cynigir ardal newydd yn y GGMC drafft newydd er mwyn cynnwys y lleoliad a ddisgrifir uchod.

Ail Ymgynghoriad Cyhoeddus: Nodyn Eglurhaol

(4) u **Llwybrau troed cyhoeddus yn croesi Clwb Golf Gogledd Cymru, Llandudno**

O ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd a phenderfyniad 775 y Cabinet, cynigir bod y gofynion i roi cŵn ar dennyn o fewn Clwb Golf Gogledd Cymru ond yn gymwys i lwybrau troed cyhoeddus sy'n croesi'r tir sy'n eiddo i'r clwb golff.

(4) n **Pwll Padlo Cymunedol Llandudno/Craig y Don**

Cynigiwyd i'r ardal hon gael ei chynnwys fel ardal gwahardd cŵn, fodd bynnag mynegodd perchnogion cŵn eu pryderon na fyddent yn gallu cael mynediad i'r toiledau cyhoeddus na defnyddio'r caffî. Felly ni fydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen; yn hytrach cynigir i'r ardal gael ei chynnwys yn nrafft newydd y GGMC fel ardal Cŵn ar Dennyn.

2 p **Maes Hamdden Llanfairfechan a Thir o amgylch y Llyn Cychod, Llanfairfechan**

Nid oedd Cyngor Tref Llanfairfechan yn cefnogi'r lleoliad a ddisgrifiwyd yn Atodlen 5 (2) o'r Gorchymyn gwreiddiol a ymgynghorwyd arno, felly cynigir i'r geiriau gael eu tynnu.

(4) q **Maes Hamdden Llanfairfechan a Thir o amgylch y Llyn Cychod hyd at ddechrau'r llwybr ceffylau, Llanfairfechan**

Nid oedd Cyngor Tref Llanfairfechan yn cefnogi'r lleoliad a ddisgrifiwyd yn Atodlen 5 (2) n o'r Gorchymyn gwreiddiol a ymgynghorwyd arno (gweler Atodiad 1). Er eglurder, nid ydynt eisiau i'r ardal cŵn ar dennyn yn cael ei ymestyn fel y cynigiwyd yn wreiddiol hyd at Ffin Orllewinol yr eiddo o'r enw "Kingswood". Yn hytrach, hoffent i'r ffin stopio ar ben Dwyreiniol yr eiddo o'r enw "Talfor".

~~2 (t) **Y llwybr rhwng Ffordd Glan yr Afon ac Old Mill Road, Dwygyfylchi**~~

~~2 (u) **Y llwybr rhwng Conwy Old Road ac Old Mill Road, Dwygyfylchi**~~

~~2 (v) **Y llwybr rhwng Ffordd Ysguborwen a'r garej ger A55/Maes y Llan, Dwygyfylchi**~~

Nid oedd aelod lleol Dwygyfylchi yn cefnogi'r gofynion cŵn ar dennyn arfaethedig ar gyfer y 3 llwybr troed uchod, gan wneud cais i dynnu'r rhain o'r gorchymyn arfaethedig. Effaith hyn fydd y gall berchnogion gerdded eu cŵn ar y llwybrau hynny heb dennyn.

(4) w **Gerddi Queens, Bae Colwyn**

Yn dilyn sylwadau, mae Cyngor Tref Bae Colwyn wedi gofyn i'r ardal uchod gael ei chynnwys fel ardal cŵn ar dennyn. Mae hyn yn dilyn ymosodiad dychrynlyd ar gi tywys gan gi arall nad oedd ar dennyn. Felly mae'r GGMC arfaethedig yn cynnwys Gerddi Queens, Bae Colwyn.

4 (v) **Llwybr troed arfaethedig o amgylch y coetir/ardal Bioamrywiaeth arfaethedig yn Brookfield Drive, Llandrillo-yn-Rhos**

Er mwyn galluogi i holl ddefnyddwyr gael budd o'r ardal hon, cynigir i gŵn gael eu rhoi ar dennyn wrth ddefnyddio'r llwybr troed arfaethedig newydd.

3. CYHOEDDUSRWYDD/YMWYBYDDIAETH O'R YMGYNGHORIAD

3.1 Sut fydd pobl yn gwybod lle fydd y newidiadau/ychwanegiadau a gynigir uchod?

Bydd Hysbysiadau yn eu lle mewn lleoliadau perthnasol i wneud y gorchmynion yn amlwg. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan y cyngor a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol a byrddau gwybodaeth digidol i roi gwybod i bobl am yr ymgynghoriad. Byddwn yn anfon neges uniongyrchol i ymgynghoreion statudol a grwpiau perthnasol eraill i roi gwybod ac i wahodd ymgysylltiad/sylwadau.

4. GWEITHREDU

6.1 Cyhoeddusrwydd

Os fydd unrhyw GGMC yn dod i rym, bydd ei ofnion llawn yn cael eu cyhoeddi drwy wefan y cyngor, cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu cyhoeddus a gwasg eraill priodol.

6.2 Cydymffurfiad

Os yw unigolyn yn methu â chydymffurfio â gofynion unrhyw GGMC a gyflwynwyd, bydd hyn yn drosedd oni bai fod ganddynt esgus rhesymol neu ganiatâd y perchennog tir. Os fydd tystiolaeth addas o drosedd o'r fath ar gael, bydd camau gorfodi priodol yn digwydd, a all gynnwys Rhybudd Cosb Benodedig neu erlyniad. Fodd bynnag, anogir perchnogaeth cŵn cyfrifol bob amser.

6.3 Rhybuddion Cosb Benodedig

Os cyflwynir Rhybudd Cosb Benodedig, mae'n cynnig cyfle i unigolyn ryddhau eu rhwymedigaeth i erlyniad drwy wneud taliad untro. Nid yw derbyn Rhybudd Cosb Benodedig yn addefiad o euogrwydd; ni fydd rhaid i'r derbynydd fynychu'r Llys ac ni fyddent yn derbyn collfarn troseddol.

Cynigir mai lefel y ffi a osodir am dorri'r GGMC drafft newydd yw £100. Mae hyn yn gynydd o £25 o'r ffi flaenorol o £75 a osodwyd ar gyfer Gwahardd Cŵn, Cŵn ar Dennynd a Chŵn ar Dennynd trwy Gyfarwyddyd. Cynigir bod y ffi am Faw Cŵn yn aros ar y ffi bresennol o £100.

6.2.3 Beth yw'r Cosb Uchaf am Dorri'r GGMC?

Bydd unigolyn sy'n euog o drosedd yn Llys Ynadon agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy o ddim uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol y Llysoedd (£1000 ar hyn o bryd)

6.2.4 Pwy fydd yn Gorfodi'r GGMC?

Bydd y GGMC yn cael ei orfodi gan unrhyw unigolyn a awdurdodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

6.2.5 A fydd unrhyw un yn cael eu heithrio o'r GGMC?

Ni fydd unrhyw beth yn y GGMC yn gymwys i unigolyn -

(a) sydd wedi cofrestru fel unigolyn dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei law dehurwydd, ei gydsymud corfforol neu ei allu i godi, i gario neu i symud gwrthrychau bob dydd mewn modd arall, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r unigolyn hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

5. CASGLIAD

Mae cynnwys y GGMC drafft newydd wedi cael ei ddylunio i sicrhau bod elfennau sylfaenol o berchnogaeth cŵn cyfrifol yn cael eu gosod i ofynion gorfodi er mwyn galluogi i bawb fwynhau manau agored y sir. Er hynny, anogir perchnogaeth cŵn cyfrifol bob amser.

6. YMGYNGHORI A BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

8.1 Pwy ydym ni'n ymgynghori â nhw ar y Cynnig hwn?

Yn rhinwedd adran 72 y Ddeddf, ar ôl 20 Hydref 2017, cyn cyflwyno unrhyw GGMC newydd neu ddiwygiedig, rhaid i'r Cyngor ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Cyngorau Plwyf/Tref os yw'n gymwys, yr Awdurdod Priffyrdd os yw'n gymwys a Chynrychiolwyr Cymuned fel bo'n briodol.

Rydym hefyd yn ymgynghori â'r cyhoedd, aelodau etholedig a pherchnogion / deiliaid tir a gynhwysir o fewn y GGMC drafft newydd, yn ogystal â budd-ddeiliaid eraill a all gael eu heffeithio.

8.2 Sut allaf i wneud sylw ar y diwygiadau arfaethedig i'r GGMC?

Gall unrhyw un roi eu barn am y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus drafft newydd yn ystod y cyfnod ymgynghori a fydd yn **dechrau ar 01/07/20 a gorffen ar 28/07/2020**. Gallwch wneud hyn drwy lenwi'r ffurflen ymateb holiadur ymgynghori yn www.conwy.gov.uk - a chwilio am Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Anfonwch unrhyw ffurflenni wedi'u llenwi i YmgynghoriadGAAC@conwy.gov.uk neu anfonwch nhw drwy'r post i:

Ymgynghoriad GGMC
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

Fel arall, bydd copïau papur ar gael yn ardaloedd derbynfa swyddfeydd y cyngor.

8.3 Pwy sy'n penderfynu beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd y Cyngor yn ystyried yr holl safbwyntiau a dderbynnir, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Economi a Lle i ystyried unrhyw gamau nesaf.